

Cyngor Cymuned Llanllyfni
Cofnodion cyfarfod y Cyngor, Nos Fawrth y 9fed o Orffennaf 2013.

Yn bresennol oedd y Cynghorwyr Dafydd Glyn Owen (Cadair), Harry Wyn Owen, Sharon Wynne Jones, D Martin Williams – Talysarn; Menna Williams, Barry Bracegirdle, Dyfed Edwards, Iwan Lloyd Williams, Ifan Glyn Jones, Elwyn Jones-Griffith – Penygroes; Gwyndaf Roberts – Llanllyfni.

Cynllunio.

Derbyniwyd y ceisiadau isod ar gyfer sylwadau'r Cyngor:

* Tir ger Lon Pitar, Penygroes – Cais amlinellol i godi 2 dy deulawr a creu mynedfa newydd. Y Cyngor yn cymeradwyo'r cais.

*60 Ffordd Coed Madog, Talysarn – Cais amlinellol i godi ty deulawr. Cymeradwyo.

* Waterloo Shop, Stryd y Dwr, Penygroes – newid defnydd siop i werthu bwyd bwyta allan. Cymeradwyo.

* Gwyndre, Ffordd Clynnog, Penygroes – Estyniad deulawr cefn. Cymeradwyo.

Gohebiaeth.

Cyngor Gwynedd

*Arwisgo Priffyrdd – derbyniwyd gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd am arwisgo priffyrdd.

*Mae llinellau gwyn wedi eu paentio yng nghyffordd Nasareth er mwyn amlygu'r tro. Er hyn, mae dal angen torri ar y lle gwyrdd i wella gwelededd.

* Gwasanaeth bws – cwynion o hyd fod bysus yn pasio heb aros i godi teithwyr. Cwynion fod y bws sydd i fod i fynd i Nantlle yn troi yn Bro Silyn.

*Cafwyd llythyr parthed problemau parcio wrth y Co-op, yn ein hysbysu bod swyddogion parcio yn Penygroes 2 i 3 gwaith yr wythnos.

Arall.

*Derbyniwyd llythyr parthed torri gwair ym mynwent Bara Caws. Penderfynwyd y byddai'r Cyngor yn fodlon helpu i dorri gwair yn y fynwent eleni. Bydd angen i'r Pwyllgor yrru cais am y ddau dorriad yn flynyddol, er mwyn adolygu'r sefyllfa yn rheolaidd.

*Derbyniwyd gwahoddiad i wasanaeth sefydlu Parchedig Jeffrey Lloyd Jones – Clynnog Fawr 11/7.

*Derbyniwyd gwybodaeth am y gwaith pibellau dwr yn Nebo.

Materion Pentrefi.

Talysarn

Pryder am ddiogelwch y cyhoedd ar safle Dorothea (beiciau modur, quads, gwersylla, yfed rownd y llyn).

Penygroes

Cwn yn maeddu yn y pentref – swyddogion Cyngor Gwynedd yn cadw golwg.

Byddwn yn gofyn am ddrych gwelededd ar waelod Llwyn y Fuches.

Palmant tu allan i feddygfa Dr Blackwell yn dyllog ac angen sylw.

Llanllyfni

Byddwn yn gofyn i Gyngor Gwynedd glirio ysbwriel ar y tro ar ol pasio Gorphwysfa.